Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Rhos Helyg
# (Campws Llangeitho a Champws Rhos y Wlad)
# d/o Campws Rhos y Wlad
# Bronant
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 4TQ

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/02/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Rhos Helyg wedi'i lleoli ar ddau safle ym mhentrefi Llangeitho a Bronant, ger Tregaron, yn awdurdod lleol Ceredigion.  Mae 57 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng pedair ac un ar ddeg oed.

Mae pob un disgybl o darddiad Gwyn Prydeinig, a Chymraeg yw mamiaith tua 60% ohonynt.  Mae tua 8% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 54% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn llawer uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ac yn cyfateb i'r polisi sirol o adnabod disgyblion ag anghenion ychwanegol.  Nid oes un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig na'r un disgybl dan ofal yr awdurdod lleol.

Nid yw'r ysgol wedi ei harolygu o'r blaen.  Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers sefydlu'r ysgol yn Ionawr 2013.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Rhos Helyg yn 2015-2016 yw £4,940.  Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £7,464 a'r isafswm yw £3,069.  Mae Ysgol Rhos Helyg yn safle 14 allan o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd a chyflawniad cadarnhaol o'u mannau cychwyn
- darpariaeth effeithiol o ystod o brofiadau dysgu perthnasol a diddorol yn bodoli
- ansawdd yr addysgu yn gyson dda ac yn cefnogi dysgu llwyddiannus
- y ddarpariaeth ar gyfer gofalu, cefnogi ac arwain disgyblion yn effeithlon a diwyd
- defnydd pwrpasol o gymorthyddion, sy'n gryfder yn yr ysgol
- yr ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar, sy'n gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal
- yr amgylchedd dysgu, dan do ac yn yr awyr agored, yn cael ei ddefnyddio'n greadigol i wella deilliannau'r disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth, staff â chyfrifoldebau a'r llywodraethwyr yn rhoi cyfeiriad clir i waith yr ysgol
- hanes dibynadwy'r arweinyddiaeth o reoli gwelliannau dros amser yn effeithiol
- yr hunanarfarnu'n fanwl, gywir a grymus ac wedi arwain at welliannau buddiol dros amser
- staff yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu a hyfforddi proffesiynol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion
- partneriaethau buddiol iawn gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill, sy'n cefnogi datblygiad yr ysgol yn gadarn
- y corff llywodraethol yn herio, yn cefnogi ac yn dal yr ysgol i gyfrif yn synhwyrol
- rheolwyr yn defnyddio cyllid yn effeithlon

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb disgyblion

A2 Sicrhau bod cynllunio gwersi yn creu cyfleoedd priodol i herio disgyblion yn unol â'u galluoedd

A3 Sicrhau bod cyflwyniadau i wersi'n ysgogi pob grŵp o ddysgwyr

A4 Mireinio'r broses o ymateb i waith disgyblion i sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

| Prif ganfyddiadau |
|---|

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau sy’n is na’r disgwyl am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn gwrando'n astud. Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n hyfedr ac yn ymateb yn frwdfrydig i'w hathrawon a disgyblion eraill wrth drafod eu gwaith mewn parau, grwpiau ac fel dosbarth cyfan. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn synhwyrol ag oedolion a disgyblion eraill, gan ddefnyddio ystod eang o eirfa. Mae ychydig yn defnyddio geirfa aeddfed i ymhelaethu ar eu trafodaethau yn huawdl. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar drafodaethau grŵp ac yn cyfrannu'n synhwyrol i benderfyniadau. Maent yn cyfrannu at drafodaethau yn effeithiol ac yn cynnig barnau pryfoclyd, er enghraifft am farwolaethau ym mhyllau glo De Cymru yn y ddeunawfed ganrif.

Mae medrau darllen bron bob un disgybl yn datblygu'n dda yn unol â'u galluoedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn gallu darllen gyda rhuglder cynyddol. Maent yn trafod ac yn darllen llyfrau’n gywir, yn synhwyrol a chyda mynegiant da. Maent yn mynegi barnau perthnasol am gynnwys storïau a rhagfynegi’n fanwl beth mae gwahanol gymeriadau yn debygol o wneud mewn stori. Mae bron bob un yn mwynhau ailadrodd straeon, sy’n cynnwys storïau eu hunain. Maent yn actio digwyddiadau ac adalw manylion â chywirdeb.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen i safon sydd o leiaf yn briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn ymateb i heriau ieithyddol yn frwdfrydig ac yn adnabod a defnyddio cwestiynu heriol, fel cwestiynau rhethregol, yn llwyddiannus. Mae ychydig o ddarllenwyr ar draws y cyfnod allweddol yn darllen yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ateb cwestiynau’n synhwyrol am y gwahanol fathau o destunau a ddarllenant, sy'n cynnwys ffeithiau ar byllau glo, straeon ffuglennol anturus a chofiannau am wleidyddion enwog. Maent yn deall pwrpas llyfrau ffeithiol ac yn rhannu eu barnau’n llwyddiannus yn ystod trafodaethau. Er enghraifft, maent yn ymchwilio i faterion ac arbrofion gwyddonol, fel yr amodau sydd eu hangen ar gyfer llysiau a blodau i dyfu.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n bwrpasol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu llythyron a barddoniaeth, a chreu posteri ar noson tân gwyllt, yn effeithiol. Mae hyn yn dangos dealltwriaeth dda o ddigwyddiadau dilynol a’r medr i adrodd straeon llawn dychymyg. Maent yn ailadrodd storïau yn gywir yn eu harddulliau ysgrifenedig eu hunain yn electronig ac ar bapur. Maent yn defnyddio mapiau stori i strwythuro eu hysgrifennu ffeithiol yn synhwyrol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth nodi ffeithiau perthnasol ar bynciau penodol fel bywyd cymeriadau fel Owain Glyndŵr.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau addas yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er enghraifft, maent yn esbonio effaith grymoedd ar sut mae pethau'n symud, ac yn egluro sut i wneud compost organig a darnau o ffuglen anturus. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymestyn eu hysgrifennu mewn ffyrdd diddorol, gan greu llyfrynnau ynglŷn ag etholiadau ac ymchwilio i gysyniadau heriol fel beth yw Cymreictod. Maent yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn dda ym mhob maes o'r cwricwlwm. Mae sillafu ac atalnodi llawer o ddisgyblion yn gywir ac yn unol â'u hoed a'u gallu. Yn gyffredinol, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad y gwaith yn daclus, sy'n ategu ansawdd gwaith y disgyblion.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfrif, trefnu a didoli rhifau hyd at 50 yn gywir. Maent yn adnabod siapiau 2D yn gymwys, ac mae llawer yn deall yn glir briodweddau siapiau 3D wrth adeiladu cestyll. Mae llawer o ddisgyblion yn mesur a defnyddio amser yn dda wrth fynd i'r afael â heriau ar wahanol bellteroedd a deithir a faint o amser y mae'n ei gymryd i wneud hynny. Mae'r mwyafrif yn bondio rhifau cyfan i 50 yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth gymhwyso cysyniadau mathemategol i ddadansoddi a datrys problemau ym mhob maes dysgu, fel defnyddio cyfeiriadau cwmpawd a chreu mosaig gyda siapiau dau-ddimensiwn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn ystod o gyd-destunau. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio canrannau symiau yn gywir ac yn esbonio'n glir sut y daethant i'w hatebion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion â dealltwriaeth gadarn o sut i gyflwyno ystod o ddata a'i ddehongli i ddarparu esboniadau a chasgliadau synhwyrol. Maent yn dewis eu dulliau eu hunain o gofnodi data rhifol yn synhwyrol ac yn esbonio eu rhesymau'n drylwyr.

Dros y blynyddoedd, ychydig bach o ddisgyblion oedd yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. O ganlyniad, gall hyn effeithio ar berfformiad yr ysgol o'i gymharu â meincnodau ysgolion tebyg a'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig wedi bod yn y 50% neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 25% uchaf.

Dros yr un cyfnod, mae'r canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch ymhob pwnc craidd wedi amrywio'n sylweddol o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac yn cyflawni'n dda o ran eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut gallant gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol a gwneud ymarfer corff trwy weithgareddau chwaraeon rheolaidd.

Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae bron pob un yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a'u cyfoedion.  Maent yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion ac mae hyn yn amlwg ar draws yr ysgol, trwy waith y cyngor ysgol a thrwy gysylltiadau cadarn iawn â'r gymuned leol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i'w cymuned.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi.  Maent yn wybodus wrth drafod yr angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol y maent yn byw ynddo.  Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn gwneud penderfyniadau synhwyrol, er enghraifft wrth geisio datblygu'r ardaloedd chwarae a'r ardaloedd amgylcheddol.

Mae bron pob un disgybl yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer gwersi.  Mae lefel gyffredinol y presenoldeb ers sefydlu'r ysgol yn 2013 yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf neu'r 50% is o ysgolion tebyg yn y ddwy flynedd lle mae data ar gael.  Yn ddiweddar, mae presenoldeb disgyblion yn gwella o ganlyniad i strategaethau a ddefnyddir gan yr ysgol.  Mae cyfradd presenoldeb disgyblion eleni tua 97%, sy'n welliant sylweddol.  Er bod gwelliannau, mae perfformiad yr ysgol ers ei sefydliad yn is na'r cyffredin.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu o ansawdd da ar gyfer disgyblion, sy'n cyfoethogi ac yn gwella'u haddysg.  Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys gyda phwyslais cadarnhaol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio o wersi yn creu cyfleoedd priodol i herio disgyblion yn unol â'u galluoedd yn ddigon cyson.

Mae bron pob un disgybl yn cael llawer o gyfleoedd i ddefnyddio eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).  Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o raglenni TGCh ar lechi a gliniaduron i osod data a chreu graffiau yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae'r cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn rhifedd a llythrennedd yn galluogi nhw i wneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.  Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.  Mae cydlynu'r ddarpariaeth a'r defnydd o gymorthyddion yn effeithiol iawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iaith Gymraeg y disgyblion yn dda ac mae'r holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson heriol â'r disgyblion.  Mae cyfleoedd systematig ac effeithiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal, hanes a diwylliant Cymru, fel hanes y pregethwr Daniel Rowland, Llangeitho, beirdd y Mynydd Bach a'r lleidr pen ffordd Twm Siôn Cati.  Mae'r disgyblion yn ymweld â thirnodau enwog yn y dalgylch i gyfoethogi eu profiadau dysgu ymhellach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarnhaol ar draws y cwricwlwm.  Un o gryfderau'r ysgol yw'r cysylltiadau cryf gydag ysgolion yn Ewrop.  Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ymweld ag ysgol bartner yn Ne Ffrainc, sy'n helpu i greu dinasyddion byd-eang gwybodus.  Mae'r pwyllgor eco yn cynnal gwelliannau effeithiol dros amser ym maes ailgylchu, casglu sbwriel ac arbed ynni.

Mae ystod o weithgareddau allgyrsiol gwerth chweil, yn cynnwys clybiau drama, athletau a garddio.  Mae'r ysgol yn darparu profiadau cadarnhaol i'r disgyblion dyfu eu llysiau eu hunain a chadw ieir.  Maent yn coginio a gwerthu'r cynnyrch, sy'n hybu mentergarwch ac yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o ffyrdd cynaliadwy ac o fyw a bwyta'n iach.

**Addysgu:  Da**

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cymell a'u bod nhw'n ymroi'n llwyr i'w gweithgareddau dysgu.  Mae oedolion yn creu awyrgylch o weithio'n bwrpasol o fewn yr ystafelloedd dosbarth ac yn yr awyr agored.  Maent yn ymateb gyda diddordeb i atebion disgyblion ac yn rhoi anogaeth effeithiol iddynt.  Mae'r cymorthyddion yn cyfoethogi profiadau unigolion a grwpiau yn gyson dda trwy ymyrraeth synhwyrol a gofalgar.  Mae hwn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae staff yn rheoli ymddygiad yn dda drwy bennu disgwyliadau clir.  Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n dda ar y cyfan ac maent yn canolbwyntio ar gynnydd unigolion.  Fodd bynnag, ar adegau, mae'r cyflwyniadau i wersi'n rhy hir ac nid ydynt yn ysgogi pob grŵp o ddysgwyr yn llwyddiannus.

Mae bron pob un oedolyn yn rhannu amcanion dysgu'n effeithiol gyda'r disgyblion.  Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau yn feddylgar.  Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn holi'n fedrus i dargedu gwelliannau ym medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae athrawon yn defnyddio asesu'n bwrpasol i dargedu anghenion disgyblion yn effeithiol.  Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn tracio'u cynnydd trwy ddefnyddio systemau ysgol gyfan effeithlon.  Maent yn nodi targedau priodol a gytunwyd gyda'r disgyblion ar gyfer gwella yn effeithiol.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.  Mae hyn yn effeithio'n bwrpasol ar eu dealltwriaeth o sut i wella'u gwaith, er enghraifft, trwy ailddrafftio gwaith ysgrifenedig ac ailystyried llwyddiannau ac anawsterau strategaethau mathemategol.  Fodd bynnag, ar adegau, mae anghysondebau ynglŷn ag ymateb i waith disgyblion yn amharu rhywfaint ar eu hymwybyddiaeth o'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth ac yn bodloni gofynion statudol.  Maent yn nodi cyraeddiadau disgyblion yn erbyn y fframwaith llythrennedd a rhifedd, adrodd ar gynnydd personol disgybl ac yn nodi targedau clir ar gyfer gwella yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd croesawgar, diogel a gofalgar.  Mae'r gefnogaeth ac arweiniad yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn poeni.  Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hybu a hyrwyddo bwyta ac yfed iach ac ymarfer corff rheolaidd.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, a'r sesiynau addoli ar y cyd, yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae ansawdd y gynhaliaeth a'r gofal i ddisgyblion yn gadarn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, gwasanaeth tân a'r seicolegydd addysg ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at iechyd a lles y disgyblion.

Mae systemau effeithlon yn yr ysgol i adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol gyda'u gwaith a'u datblygiad cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r staff yn cydlynu'r ddarpariaeth yn effeithiol i bob un disgybl ar y ddau safle. Mae cyswllt pwrpasol gydag asiantaethau allanol, sy'n sicrhau cynhwysiant llwyddiannus i'r cwricwlwm a holl weithgareddau'r ysgol.

Mae'r cynlluniau addysg unigol yn targedu anghenion unigolion yn fwriadus ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni a gofalwyr yn y broses er mwyn creu cyswllt adeiladol rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r ysgol yn defnyddio cymorthyddion addysgu yn effeithiol iawn. Maent yn cefnogi'r addysgu a darparu rhaglenni ymyrraeth gwerthfawr. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion penodol yn gwella'n gyson yn unol â'u galluoedd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned fywiog gydag awyrgylch teuluol, cynnes. Mae'r ethos cadarnhaol yn annog pob disgybl i drin pobl eraill yn deg a dangos parch at bawb. Mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd o fywyd yr ysgol ac mae'n gryfder.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n gysurus. Mae'r safle a'r adeilad yn ddiogel ac mae systemau cadarn yn eu lle i fonitro ymwelwyr i'r ysgol. Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles, yn ogystal ag annog yr holl ddisgyblion i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol a'r gymuned ehangach.

Mae amgylchedd yr ysgol yn lân ac yn drefnus. Mae'r adnoddau'n hygyrch ar gyfer pob disgybl. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithlon o'r amgylchedd ffisegol a defnyddir adeiladau'r ysgol ar y ddau safle'n greadigol. Er enghraifft, mae ardaloedd anturus yn annog y disgyblion i fentro a chydweithio ac mae'r ardaloedd natur yn ysgogi'r disgyblion i ymholi ac ymchwilio i fyd natur.

Mae'r adnoddau chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn cyfoethogi dysgu disgyblion yn effeithiol trwy ddefnyddio gweithgareddau difyr a chyffrous. Mae arddangosfeydd ar draws yr ysgol yn adlewyrchu ac yn dathlu gwaith disgyblion yn llwyddiannus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn gadarn ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r staff wedi rhoi nifer o strategaethau cadarn ar

waith ac mae’r systemau hyn wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio fel tîm ymysg staff y ddau safle. Mae’r arweinwyr wedi gosod prosesau effeithiol yn eu lle i godi safonau presenoldeb yr ysgol ac i godi lefelau cyrhaeddiad y disgyblion. Mae staff yn monitro’r prosesau hyn yn llwyddiannus er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Mae gan bob aelod o staff ddisgrifiadau swyddi cyfredol ac maent yn ymwybodol o’u rolau a’u cyfrifoldebau, sy’n sicrhau darpariaeth gyson ar draws yr ysgol. Mae’r ddarpariaeth bwrpasol hon yn gwella cyflawniadau disgyblion dros amser. Mae’r holl staff yn cyflawni eu rolau a’u cyfrifoldebau’n effeithlon ac yn cefnogi’r pennaeth a’i weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio’n rheolaidd ar ddadansoddi data perfformiad yr ysgol, sy’n gosod targedau gwelliant mesuradwy er mwyn codi safonau disgyblion. Mae’r staff yn adolygu’r cynnydd at gyrraedd blaenoriaethau’r cynllun datblygu’n llwyddiannus er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn symud ymlaen gyda gwelliannau parhaus.

Mae’r arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae’r ysgol yn gweithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn synhwyrol ac mae hyn yn cael effaith bositif ar safonau'r disgyblion. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar waith ac yn cael eu gweithredu’n effeithiol, yn enwedig yn yr ardal allanol.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn herio’r arweinyddiaeth yn bwrpasol. Mae’r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr am berfformiad yr ysgol, sy’n eu harfogi i weithredu gwelliannau cyson. Mae nifer o lywodraethwyr yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd i wella’u dealltwriaeth o’r gwaith dyddiol, fel monitro’r addysgu a chysoni’r ddarpariaeth. Mae eu dealltwriaeth o ddata perfformiad yr ysgol yn gadarn, sy’n eu galluogi i bennu cyfeiriad strategol effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro safonau’r addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Gwneir hyn trwy arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau disgyblion, sy’n gyrru gwelliant. Mae’r adroddiadau monitro’n fanwl a dadansoddol, ac yn nodi cryfderau a meysydd datblygu’n glir. Mae deilliannau’r broses monitro’n cael eu trafod a’u gwerthuso gydag unigolion, mewn cyfarfodydd staff a gyda’r llywodraethwyr. Maent yn bwydo’n effeithiol i mewn i drefniadau hunanarfarnu’r ysgol yn llwyddiannus.

Mae strwythur hunanarfarnu’r ysgol yn ddiwyd a thrwyadl ac yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys data cyrhaeddiad, deilliannau prosesau monitro, ymatebion i holiaduron disgyblion, barn llywodraethwyr a rhieni. Mae arweinwyr yn defnyddio’r wybodaeth i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella yn effeithiol.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun eglur o effaith y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth ar safonau a lles y disgyblion. Trwy fod yn arfarnol, mae’n cynnig asesiad cywir o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae’r cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio’n glir ar godi safonau ac mae’n nodi’n fanwl pa agweddau sydd i’w cyflawni ymhob tymor.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae partneriaethau llwyddiannus gydag asiantaethau arbenigol a'r awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion, trwy dargedu unigolion anghenus gyda sesiynau ymyrraeth effeithiol.

Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer helaeth o ymwelwyr i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod a'r sioeau cyfagos ac yn cyfrannu'n rheolaidd i wasanaethau yn yr addoldai lleol. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth fuddiol y disgyblion o bwysigrwydd y gymuned leol. Mae cysylltiadau cryf iawn â'r rhieni yn ategu dealltwriaeth disgyblion o'u milltir sgwâr, yn gwella'u hymwybyddiaeth o waith elusennol ac yn cefnogi gwaith yr ysgol yn yr awyr agored.

Mae cydweithio llwyddiannus gyda swyddogion lles yr awdurdod lleol wedi arwain at wella'r ddarpariaeth ar gyfer carfan o ddisgyblion ag anghenion ychwanegol a hefyd at godi cyfradd bresenoldeb ddiweddar yr ysgol yn sylweddol. Mae cysylltiadau effeithiol gyda'r cylch meithrin sydd ar safle'r ysgol yn cyfrannu'n bwrpasol at sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd lleol. Mae trefniadau ymweliadau pontio ynghyd â rhaglen waith pontio effeithiol yn sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau'r awdurdod lleol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n effeithlon i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r staff addysgu a'r staff cynorthwyol yn cydweithio'n gadarn fel tîm. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Gwna'r athrawon ddefnydd priodol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, sy'n cynnwys teithio o un safle i'r llall i ddarparu rhaglenni addysgu cydlynus.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu. Maent yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff a chymorthyddion trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant. Mae'r pennaeth a'r staff yn rhan o nifer o rwydweithiau dysgu, sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i ysgolion gydweithio ac i staff ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth proffesiynol. Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgrifennu estynedig, rhifedd a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol yr ysgol yn ofalus ac yn sicrhau eu bod yn gysylltiedig â'r cynllun datblygu. Mae'r gyllideb yn cael ei monitro'n addas gan y llywodraethwyr a'r pennaeth er mwyn blaenoriaethu darpariaeth gynhwysfawr. Mae defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd ar waith i dargedu disgyblion anghenus yn bwrpasol trwy staffio synhwyrol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion penodol.

O ystyried cyflawniad disgyblion, darpariaeth effeithiol ac arweinyddiaeth gadarn, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672372 - RHOS HELYG**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 70 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 11 | 8 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 81.8 | 87.5 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 11 | 8 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 81.8 | 87.5 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 45.5 | 37.5 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 2 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 11 | 8 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 90.9 | 87.5 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 45.5 | 50.0 | 22.2 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 11 | 8 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 54.5 | 37.5 | 44.4 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672372 - RHOS HELYG**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 70 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | 16 | 15 | 14 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | 100.0 | 86.7 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 16 | 15 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 86.7 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 37.5 | 60.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 1 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 16 | 15 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 87.5 | 86.7 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 37.5 | 46.7 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 2 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 16 | 15 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 86.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 31.3 | 40.0 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 16 | 15 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 86.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 37.5 | 46.7 | * |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 3 | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 25 | 25<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 25 | 23<br>92%<br>92% | 2<br>8%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 25 | 24<br>96%<br>97% | 1<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 25 | 25<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 25 | 25<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 25 | 24<br>96%<br>96% | 1<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 25 | 25<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 25 | 25<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 25 | 19<br>76%<br>91% | 6<br>24%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 25 | 25<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 25 | 19<br>76%<br>77% | 6<br>24%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 25 | 17<br>68%<br>84% | 8<br>32%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 25 | 19 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 25 | 20 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 25 | 23 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 25 | 15 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 23 | 11 | 12 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 24 | 18 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 25 | 17 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 23 | 14 | 7 | 1 | 1 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 61% | 30% | 4% | 4% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 24 | 18 | 5 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 75% | 21% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 25 | 20 | 4 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 80% | 16% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 25 | 23 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 24 | 18 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 25 | 17 | 7 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 68% | 28% | 4% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 25 | 21<br>84% | 4<br>16% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 24 | 14<br>58% | 10<br>42% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 25 | 16<br>64% | 9<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 20 | 13<br>65% | 7<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 25 | 17<br>68% | 7<br>28% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 25 | 18<br>72% | 7<br>28% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Mai Bates | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Paul Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Hazel Morgan | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.